

Yn 1980 gofynnodd Cyngor Llyfrau Cymru imi olygu cyfres o lyfrau i blant ar enwogion byd mewn gwahanol feysydd. Roedden nhw am batrwm syml, sef erthygl gan arbenigwr ynghyd â llun neu luniau. Cyhoeddwyd tri llyfr olaf y gyfres o ddeunaw yn 1991. Mae'r farchnad llyfrau plant wedi carlamu ymlaen ac maen nhw'n ymddangos yn henffasiwn erbyn hyn, yn enwedig gyda'r rhyngryd mor gyfoethog-gyfleus.

Ni ragwelwn unrhyw broblemau wrth ddechrau ar y gwaith. Gwyddwn y deuai digon o arbenigwyr i'r adwy i'm helpu gyda'r erthyglau ond esgorodd y casglu lluniau (ymron bum cant ohonyn nhw) ar sawl problem ddiddorol a sôn am hynny a wna'f yn y llith hwn.

Darganfyddwyr ar dir oedd llyfr cyntaf y gyfres. Doedd hi ddim yn anodd dod o hyd i ugain o bobl i sgrifennu amdany'n nhw. Gan i'r Cyngor Llyfrau ddewis cyhoeddi'r llyfrau mewn setiau o dri, ychwanegais *Darganfyddwyr môr ac awyr* a *Dyfeiswyr enwog*. Golygai hyn chwilio am dros chwe deg o luniau ar fyrder a dyna oedd dechrau gofidiau.

Chwilio am Mansel


Penderfynais ar lith ar Alexander Mackenzie. Ef oedd y cyntaf i fynd dros y Mynyddoedd Creigiog yng Nghanaada yn 1793. Roedd llun ohono yng nghorff llyfr trwchus mewn llyfrgell leol ac oddi tano roedd un gair, Mansell. Mae rhai cyhoeddwy'r yn cydnabod lluniau a'u hawduron yn eu llyfrau. Doedd dim yn y llyfr hwn i'm helpu gyda Mansell, ac ar ôl chwilio mewn nifer o ffynonellau, cefais wybod fod yr asiantaeth yn Llundain ac wedi ymholi gyda'r Swyddfa Bost, cefais gyfeiriad, ac ysgrifennu i ofyn a fyddai'n bosibl imi bwrcasu ymron chwe deg o luniau a faint fyddai hynny'n gostio. Gall rhai asiantaethau ofyn am filoedd o bunnoedd am lun (fel asiantaethau byd y sinema, er enghraifft: ac wedi imi gael un cais hallt daeth Hilda i'r adwy gyda llun o'i brawd bach, Richard Burton.). O achos hyn rown i wedi cyfansoddi llythyr stoc ar bapur pennawd. Ynddo eglurwn fy mod yn gweithio drwy'r Cyngor Llyfrau ar lyfrau i blant Cymru, ein bod yn brwydro dros gadw'r hen iaith ac yn ymladd yn erbyn anawsterau dybryd, gan gynnwys rhai ariannol.

Yn hwyr un noson acafol, canodd y ffôn: "Mansell yma."

Suddodd fy nghalon. Mae gen i broblem clyw a dwyf fi ddim ar fy ngorau ar y ffôn. Ond "Mansell yma!" Yn Gymraeg.

Roedd yn amlwg mai gwraig oedd yn tynnu mlaen oedd yn siarad a gofynnais iddi a oedd yn Gymraes. "No, but during the war I lived for a while as an evacuee in a village called Cwmlllynfell." A minnau wedi bod yn brifathro ysgol am flynnyddoedd yn Ystradgynlais yn ymyl ac yn adnabod y lle'n dda.

Roedd hyn yn ddigon i dorri'r garw a dywedodd y gallai fy helpu gyda nifer o'r



lluniau, a chan fy mod yn Gymro ac yn gweithio dros lyfrau Cymraeg i blant, roedd am £3 (yn unig) am bob llun a argreffid, telerau ffafriol iawn o achos i'r pennaeth fod yn ifaciwi yng Nghwmlllynfell ar un adeg. Cadwodd at ei gair a phrynais nifer helaeth o luniau Mansell. Mae *The Mansell Collection* wedi casglu nifer o doriadau o bapurau newydd a ffynnonellau eraill dros gyfnod maith a doedd hawlfraint ddim yn broblem.

Dyfeisydd ddim am gyhoeddu'rwydd

Gall ambell broblem ddiddorol godi, hyd yn oed os oes gan olygydd dipyn o wybodaeth: er enghraifft, roeddwn am erthyglau ar ddyfeiswyr enwog, tua dau ddwsin ohonyn nhw. Y broblem yma oedd pwy i'w gynnwys a phwy i'w adael allan. Efallai mai dyfais bwysica'r byd yw'r olwyn, ond does neb a wyr pwy a'i dyfeisiodd. Pan own i'n paratoi'r gyfrol, câi llawer ei sgrifennu am yr hofranlong. Cafodd y patent ei gofrestru yn 1955 a rhagwelai arbenigwyr ar ddechrau wythdegau'r ganrif ddiwethaf y byddai'r hofranlong yn trawsnewid teithio ar fôr ac ar dir. Gan dderbyn eu barn, penderfynais gynnwys y dyfeisydd, Syr Christopher Cockerell a chysylltu ag asiantaethau i gael llun ohono ef a'r hofranlong. Cefais lun o'r hofranlong gan *Syndication International* ond mewn sgwrs ffôn ag un o weithwyr caredig yr asiantaeth (ac roedd sawl un yn barod ei gymwynas) ces wybod nad oedd llun o Cockerell ar gael gan asiantaethau am na ddymunai unrhyw gyhoeddu'rwydd. Ces gyfeiriad Cockerell ganddo.

Bod yn Gymro yn gymorth

Gan obeithio'r gorau anfonais fy llythyr stoc ato. Yn y man ces lythyr personol ganddo'n egluro'r hyn a wyddwn, sef nad oedd yn dymuno cyhoeddu'rwydd. Dywedodd er hynny fod ganddo gydymdeimlad â'r iaith Gymraeg o achos cyfaill o Gymro a gofynnodd iddo dynnu llun yn arbennig i'r gyfres, ac fe wnaeth. Pe bawn yn llunio'r gyfres heddiw, ni fyddai'r hofranlong yn hawlio lle ynddi, ond breuddwyd oedd y twnell y dyddiau hynny.

Cyfieithu llythyr cais i'r Ffrangeg

Ces ddau brofiad diddorol wrth osod Arlunwyr enwog wrth ei gilydd. Gan fod y maes mor eang, dewisais ganolbwyntio'n unig ar arlunwyr Ewrop. Hyd yn oed wedyn, bu'r rhaid imi ddewis tri dwsin ac anghofio am arlunwyr gwir bwysig. Un a ddewisais oedd Georges Seurat, arloesydd pwyntiliaeth. Roedd yr unig arlun o'i waith y gallwn gael gafael arno yn y *Bibliothèque Nationale* ym Mharis, iawn, dim problem ac anfonais fy llythyr apêl Saesneg arferol dros y dŵr a chael ateb yn yr iaith Ffrangeg ynghyd â ffurflen Ffrangeg. Dyna fel y dylai fod, wrth reswm, a gofynnais i un oedd yn darlithio ar Ffrangeg am gymorth i drosi'r llythyr a llenwi'r ffurflen hynod dechnegol fanwl, ond roedd y manylion yn ddech nag e.(Rhyfedd o fyd!) Eglurodd bod yr iaith dechnegol tu hwnt i'w fyd ef a Ffrangeg ysgolion, ond daeth ffawd i wenu. Digwyddai merch ysgol o Ffrainc fod yn aros gyda Chymraes oedd yn gyfarwydd i mi. Roedd honno wrth ei bodd yn helpu a chydai'i chymorth, daeth popeth i dalar ond bu'n rhaid imi dalu am y llun yn arian Ffrainc a gofalu bod cydnabyddiaeth wrtho yn ogystal ag ar un o dudalennau blaen y llyfr.

Methu cael ateb

Doedd pwrcau lluniau o arluniau ddim yn broblem fel rheol gan fod arluniau'n cael eu cadw mewn orielau celf ac amgueddfeydd. Fel rheol mae ganddyn nhw wasanaeth copio hwylus. Ces lun o Corbet gan Mansell, ond roedd yr arlun a fynwn, Merched y Pentref yn Oriol Gelf Leeds, sydd yn Elmet, un o faestrefi'r ddinas. Dyma Elfed, wrth gwrs, nid nepell o Gatraeth. Soniais i ddim am hynny wrth anfon fy llythyr arferol, na'r ail na'r trydydd llythyr. Roedd methu cael ateb yn anghyffredin ond digwyddai cydweithwyr i mi fod yn dychwelyd i'w gartref yn Leeds bob pythefnos a threfnodd i'w wraig fynd â llythyr i'r amgueddfa. Cafodd addewid y cawn ateb "yn y man". Gan na ddaeth ateb, penderfynodd fynd ei hun, gan addo cyflawni gwyrbhiau, ond ni fu'n llwyddiannus.

Dywedodd T H Parry-Williams un tro nad yw pawb yn gwirioni'r un fath ac yn fy siom